WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Jocelyn Davies AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod** | IG2366 |
| **Dyddiad** | 9 Gorffennaf 2015 |
| **Tudalennau** | **1** o **4** |

Annwyl Jocelyn

**Cynllun Blynyddol Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru 2015-16**

Rwyf bellach yn gallu ymateb i'r ymholiadau a godwyd yn eich llythyr dyddiedig 5 Mehefin ynglŷn â'n Cynllun Blynyddol 2015-16, ac i roi'r diweddaraf ichi ar y cynnydd a wnaed ar yr adolygiad o'n trefniadau fflyd/trafnidiaeth.

<u>Gohebiaeth gan Aelodau'r Cynulliad</u>

Yn ystod 2014-15, gallaf gadarnhau bod yr Archwilydd Cyffredinol wedi cael 21 o ddarnau o ohebiaeth ar wahân gan Aelodau'r Cynulliad, a oedd yn cynnwys ceisiadau penodol i ymchwilio i faterion neu gyrff penodol.

<u>Dadansoddiad o effaith yn dilyn digwyddiadau arfer da</u>

Atodaf ddetholiad o 'daflenni effaith' a baratoir yn dilyn ein seminarau dysgu ar y cyd yn y Gyfnewidfa Arfer Da. Yn ogystal, ar ddiwedd pob seminar, rydym yn gofyn i'r holl gynrychiolwyr lenwi Taflen 'Galwad i Weithredu' gan gofnodi'r camau maent yn bwriadu eu cymryd i roi'r hyn a ddysgwyd ar waith. I gynorthwyo wrth fesur effaith ein gwaith, chwe mis ar ôl pob seminar rydym yn cysylltu â chynrychiolwyr unwaith eto i ofyn am adroddiad cynnydd. Isod ceir enghreifftiau o adborth a gafwyd gan ddau sefydliad sydd wedi ymgysylltu â'r Gyfnewidfa Arfer Da, sef Cynghorau Bwrdeistref Sirol Wrecsam a Chonwy:

<u>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy</u>

Adroddodd y Cyngor y canlynol yn dilyn ein Gweminar Rheoli Risg:

- rhannodd ei Strategaeth Rheoli Risg ar draws Gogledd Cymru;
- myfyriodd ar ei brosesau a gweithredwyd system rheoli perfformiad newydd sy'n gysylltiedig â'i raglen a threfniadau rheoli prosiect; a

- gwnaeth waith dilynol ar gysylltiadau a wnaed yn y seminar er mwyn gwella ei ddysgu.

Yn dilyn ein seminar ar Lywodraethu datblygodd y Cyngor gynllun gweithredu sy'n cynnwys:

- cynnig am dudalen mewnrwyd ar lywodraethu ar gyfer ei staff;
- cynnig am lawlyfr llywodraethu ar-lein;
- cael gafael ar adnodd DVD y cyfeiriodd un o'r siaradwyr ato a defnyddio'r adnodd hwn; a
- defnyddio ymarfer mapio a gyflwynwyd mewn gweithdy i ddatblygu dull sefydliadol at sicrwydd.

<u>Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam</u>:

- Datblygodd y Cyngor gynlluniau ar gyfer Canolfan Triniaeth am Alcohol Aml-Asiantaeth yng nghanol y dref fel rhan o'r 'economi liw nos'. Fe wnaed hyn wedi iddynt ddod ar draws y cyfleuster arobryn yng Nghaerdydd a'i arddangoswyd yn y seminarau 'Mabwysiadau Dulliau Ataliol'.
- Ar ôl dod ar eu traws yn ein seminar 'Defnydd Gwell o Asedau Cyhoeddus' mae'r Cyngor yn gweithio gyda'r Cwmni Buddiannau Cymunedol Indycube er mwyn datblygu mannau swyddfa costau isel cyfleusterau meithrin busnes mewn adeiladau Cyngor dros ben yn Wrecsam.

<u>Gwaith mewn perthynas ag agenda ataliol y GIG</u>

Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn ysgrifennu ar wahân at y Pwyllgor gan amlygu ei waith diweddaraf a gynhaliwyd mewn perthynas â'r agenda ataliol yn y GIG, cyn cylch cyllideb eleni.

<u>Adolygiadau heb eu cynllunio gan yr Archwilydd Cyffredinol</u>

Fel yr amlinellwyd yn eich llythyr dyddiedig 5 Mehefin 2015, caiff y swm o £250,000 ei ddyrannu'n dybiannol yng nghyllideb llinell sylfaen Swyddfa Archwilio Cymru i alluogi i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal adolygiadau heb eu cynllunio i faterion o bryder i'r cyhoedd, heb effeithio ar ein gallu i gyflawni astudiaethau cenedlaethol a gynlluniwyd ymlaen llaw.

Mae'r cyllid hwn yn galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gynnal gwaith heb ei gynllunio a darparu adnoddau ar gyfer y gwaith hwn, sydd fel arfer yn waith o natur ymchwiliol, mewn ymateb i bryderon sydd o ddiddordeb sylweddol ac wedi'u codi gan, er enghraifft, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Aelodau'r Cynulliad neu aelodau o'r cyhoedd. Mae'r gwaith hefyd yn cynnwys paratoi memoranda ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar bynciau a godwyd yn ystod trafodaethau'r Pwyllgor. Fodd bynnag, caiff unrhyw adolygiadau

ymchwiliol mewn cyrff llywodraeth leol unigol eu cyllido drwy ffioedd archwilio yn hytrach na defnyddio'r ddarpariaeth gyllido ychwanegol hon.

Fel y nodir ar dudalen 15 o God Ymarfer Archwilio'r Archwilydd Cyffredinol, o ran ei swyddogaethau archwilio ac astudio, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn ystyried, ymysg pethau eraill, y canlynol wrth benderfynu ar ba waith (gan gynnwys adolygiadau heb eu cynllunio) i'w gynnal:

- lefelau buddiannau a phryderon y cyhoedd;
- maint y materion a'r amgylchiadau a'r risgiau cysylltiedig;;
- a yw'r gwaith yn amserol;
- a ellir trosglwyddo'r gwersi a ddysgir; a
- gwerth posibl y gwaith o ran arbedion ariannol, gwella gwasanaethau a gwella trefniadau rheoli neu lywodraethu.

Mae ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer 2014-15 yn rhestru astudiaethau ymatebol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn, ar dudalennau 28 a 29. Defnyddiwyd £220,000 wrth gynnal yr astudiaethau hyn a chafodd y balans o £30,000 ei ddychwelyd i Gronfa Gyfunol Cymru ar ddiwedd y flwyddyn.

Byddwn yn falch o roi'r diweddaraf i'r Pwyllgor Cyllid ar swm a natur adolygiadau heb eu cynllunio'r Archwilydd Cyffredinol yn hanner cyntaf 2015-16 drwy ein Hadroddiad Interim nesaf. Y mis hwn bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cyhoeddi ei adroddiad ar Gronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi fy hysbysu fod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) wedi rhannu eich llythyr at y Cynghorydd Aaron Shotton dyddiedig 5 Mehefin 2015 â ni. Yn y llythyr hwnnw gwnaethoch ofyn am y gost i awdurdodau lleol o ran dargyfeirio adnoddau staff i ddarparu gwybodaeth ar gyfer adolygiadau heb eu cynllunio a gynhaliwyd drwy ddefnyddio cyllid ychwanegol a ddarparwyd yn 2013-14. Gofynnodd CLILC i ni am wybodaeth ynghylch pa adolygiadau a gynhaliwyd gan ddefnyddio'r cyllid hwnnw. Gwnaethom eu hysbysu y cynhaliwyd yr adolygiadau canlynol, fel y rhestrir ar dudalen 38 o Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2013-14 yr Archwilydd Cyffredinol:

- Adolygiad dilynol ar y cyd gydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru o drefniadau llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Archwilio'r arian cyhoeddus a ddarperir i Ganolfan Cywain yn y Bala
- Archwilio o Gronfa Fuddsoddi mewn Gwyddorau Bywyd Cymru (parhaus)
- Memorandwm ar gyflogau uwch reolwyr ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru
- Memorandwm ar y Gwasanaeth Awyr o fewn Cymru – Caerdydd i Ynys Môn
- Archwilio rhestrau aros y GIG a phractisau preifat (parhaus)

Nododd yr Archwilydd Cyffredinol y byddai'n synnu pe bai unrhyw rai o'r adolygiadau hyn yn arwain at ddargyfeirio sylweddol o ran adnoddau mewn cyrff llywodraeth leol.

Cytunodd Cyfarwyddwr Cyllid CLILC, Jon Rae, gan nodi ei fod yn amau a yw'r adolygiadau hyn yn tynnu sylw awdurdodau lleol, a lle maent yn gwneud hynny nid yw i lefel sylweddol a bod awdurdodau lleol yn fodlon cyfrannu at waith o bwysigrwydd cenedlaethol. Mae CLILC wedi hysbysu'r Archwilydd Cyffredinol bod y Cynghorydd Shotton wedi ateb eich llythyr mewn termau tebyg.


Mae ein Cynllun Ffioedd a gyhoeddir yn darparu sail Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer codi ffioedd. Mae ein cyfraddau ffioedd yr awr ar gyfer staff archwilio yr un mor berthnasol i waith arferol a gwaith heb ei gynllunio. Lle y bo angen, rydym hefyd yn cyhoeddi graddfeydd ffioedd sy'n meintioli cyfanswm yr amrediadau cost ar gyfer archwilio cyrff llywodraeth leol yn rheolaidd.

Adolygu ein trefniadau fflyd/trafnidiaeth

Nododd yr adroddiad gwerth am arian gan Baker Tilley'r lle inni gryfhau mesur gwerth am arian wrth gymhwyso polisïau teithio a thrafnidiaeth yn Swyddfa Archwilio Cymru. Ers i'r Pwyllgor Cyllid adolygu'r adroddiad, mae Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru wedi sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen i adolygu meini prawf cymhwysedd ar gyfer lwfansau trafnidiaeth ac i gynnig mesurau gwerth am arian priodol. Yn ddiweddar, mae'r Bwrdd wedi comisiynu profi meini prawf cymhwysedd newydd ochr yn ochr â gwneud cais bod amrywiaeth o opsiynau'n cael eu datblygu ymhellach i sicrhau bod y teithio hanfodol mae ein staff yn ei wneud yn parhau i gynrychioli gwerth am arian. Bydd cynigion yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd gan y Pwyllgor Rheoli ar 1 Hydref 2015, gyda'r penderfyniadau'n amodol ar ymgynghori ag undebau llafur.

Yn olaf, er gwybodaeth i'r Pwyllgor, cafodd ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer 2014-15 ei gyhoeddi fis cyfan yn gynharach eleni, gan adlewyrchu'r hyn a welwn fel arfer da wrth gau cyfrifon yn gynnar. Gwnaethom hefyd weithredu ar argymhelliad y Pwyllgor i ddarparu mwy o dryloywder o ran ein costau trafnidiaeth yn y set hon o gyfrifon. Edrychwn ymlaen at drafod yr adroddiad gyda'r Pwyllgor maes o law.

Yn gywir



**Isobel Garner**
**Cadeirydd, Swyddfa Archwilio Cymru**

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

The Good Practice Exchange
Y Gyfnewidfa Arfer Da



# Mabwysiadu Dulliau Ataliol

Mae gwasanaethau cyhoeddus Cymru yn rhoi mwy a mwy o bwyslais ar ymyraethau a pholisïau ataliol, gan ystyried gwasanaethau cyhoeddus yn ei gyfanrwydd yn hytrach na sefydliadau unigol. Mae atal ac ymyrraeth cynt yn thema allweddol o’r Gyllideb 2014-15 ac mae buddsoddi nawr er mwyn arbed yn y dyfodol yn flaenoriaeth gyffredin ar draws gwasanaethau cyhoeddus.


Wrth roi’r newidiadau hyn ar waith, fe berir heriau sylweddol i wasanaethau cyhoeddus. Drwy dynnu ar astudiaethau achos da sydd eisoes yn bodoli ar hyd a lled Cymru a’r DU, fe wnaeth y seminar hwn hwyluso sgyrsiau agored a gonest am wirionedd newid pwyslais ac adnoddau. Mae hefyd yn un o egwyddorion allweddol y Bil Cenedlaethau’r Dyfodol arfaethedig.

Arfer Da Cymru
Good Practice Wales

Nifer y mynychwyr: 67
Nifer y sectorau a gynrychiolwyd: 38

Pa mor ddefnyddiol oedd y seminar

- Defnyddiol iawn
- Defnyddiol
- Ddim yn ddefnyddioliawn
- Ddim yn ddefnyddiolo gwbl




Disgrifiadau'r cynrychiolwyr:




@GoodPracticeWAO
#waoprevent

| | | |
|---|---|---|
| 424,140 ARGRAFFIADAU | 42,516 CYRHAEDDIAD TWITTER | 104 AILDRYDAR |
| 40 CYFRANWYR | | |

Trydariadau'r seminar ar Storify: http://bit.ly/1zSQd3X

Partneriaid y seminar:

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dolenni i wybodaeth o'r seminar:

| | |
|---|---|
| Gwefan: | www.audit.wales/cy/digwyddiadau/mabwysiadu-dulliau-ataliol |
| Blogiau: | www.goodpracticeexchange.wordpress.com |
| Pinterest: | www.pinterest.com/goodpracticewao |
| Arfer Da Cymru: | www.arferdacymru.com |
| Fideos: | www.vimeo.com/94662374 |

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

The Good Practice Exchange
Y Gyfnewidfa Arfer Da



# Drych, drych ar y wal...
# Myfyrio ar Lywodraethu Da

Wrth adael y seminar, roedd gan gynadleddwyr ddealltwriaeth o sut i gael sicrwydd bod trefniadau llywodraethu yn gweithio mor effeithiol ag y gallant. Yn benodol, cafodd y cynadleddwyr well ddealltwriaeth o’r canlynol:


- Pwysigrwydd llywodraethu da
- Goblygiadau llywodraethu gwael
- Sut i gael sicrwydd bod trefniadau llywodraethu yn gadarn; am beth i chwilio, ac am beth i gadw llygad!
- Enghreifftiau o wahanol ddulliau o weithredu er mwyn sicrhau llywodraethu gwell gan sefydliadau yn y sectorau cyhoeddus a phreifat

Arfer Da **Cymru**
Good Practice **Wales**

## Nifer y mynychwyr: 192
## Nifer y sectorau a gynrychiolwyd: 62

Pa mor ddefnyddiol oedd y seminar?

- Defnyddiol iawn
- Defnyddiol
- Ddim yn ddefnyddioliawn
- Ddim yn ddefnyddiolo gwbl




## Disgrifiadau'r cynrychiolwyr:




@GoodPracticeWAO
#WAOgov14

| 23,372 ARGRAFFIADAU | 8,630 CYRHAEDDIAD TWITTER | XX AILDRYDAR |
|---|---|---|
| 15 CYFRANWYR | | |

Trydariadau'r seminar ar Storify: http://bit.ly/1OvjWXk

## Partneriaid y seminar:

cfps the centre for public scrutiny
better scrutiny for better government

Grant Thornton

## Dolenni i wybodaeth o'r seminar:

| | |
|---|---|
| Gwefan: | www.audit.wales/cy/digwyddiadau/drych-drych-ar-y-walmyfyrio-ar-lywodraethu-da |
| Blogiau: | www.goodpracticeexchange.wordpress.com |
| Pinterest: | www.pinterest.com/goodpracticewao/good-governance-llywodraethu-da/ |
| Arfer Da Cymru: | www.arferdacymru.com |
| Fideos: | www.vimeo.com/115246262 |

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

The Good Practice Exchange
Y Gyfnewidfa Arfer Da



# Tai a Chwaraeon: Gwella lles a darparu gwell gwerth am arian cyhoeddus


Mae lles yn golygu mwy nag iechyd yn unig. Mae ansawdd tai a gweithgarwch corfforol ill dau'n cael effaith mawr. Fel rhan o'r seminar fe ddaeth arbenigwyr o faes tai a gweithgarwch corfforol at ei gilydd er mwyn darparu buddion sylweddol i les pobl Cymru, sy'n lleihau costau cyfredol.
Mae newidiadau mawr ar y gweill yn y sector cyhoeddus, gyda Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn golygu y bydd rhaid i sefydliadau ddangos tystiolaeth o sut maen nhw'n cydbwyso anghenion tymor hir ac anghenion tymor byr, a chan ddefnyddio dulliau integredig; cynnwys pobl sydd â diddordeb; gweithredu ar y cyd; a mabwysiadu meddylfryd ataliol.

Arfer Da Cymru
Good Practice Wales

## Nifer y mynychwyr: 111
## Nifer y sectorau a gynrychiolwyd: 60

Pa mor ddefnyddiol oedd y seminar?

- Defnyddiol iawn
- Defnyddiol
- Ddim yn ddefnyddioliawn
- Ddim yn ddefnyddiolo gwbl




## Disgrifiadau'r cynrychiolwyr:




@GoodPracticeWAO
#WAOWellbeing

| | | |
|---|---|---|
| 727,648 ARGRAFFIADAU | 78,793 CYRHAEDDIAD TWITTER | 168 AILDRYDAR |
| 63 CYFRANWYR | | |

Trydariadau'r seminar ar Storify: http://bit.ly/1EwHBvD

## Partneriaid y seminar:

GIG Cymru NHS Wales – Iechyd Cyhoeddus Cymru / Public Health Wales
WLGA • CLILC
Llywodraeth Cymru / Welsh Government
Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru / Community Housing Cymru Group
THE WELSH NHS CONFEDERATION / CONFFEDERASIWN GIG CYMRU
Sport Wales / Chwaraeon Cymru

## Dolenni i wybodaeth o'r seminar:

| | |
|---|---|
| Gwefan: | www.audit.wales/cy/digwyddiadau/tai-chwaraeon-gwella-lles-darparu-gwell-gwerth-am-arian-cyhoeddus |
| Blogiau: | www.goodpracticeexchange.wordpress.com |
| Pinterest: | www.pinterest.com/goodpracticewao |
| Arfer Da Cymru: | www.arferdacymru.com |
| Fideos: | www.vimeo.com |